# Camau Gweithredu Cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 9 Tachwedd 2022 **Lleoliad:** MS Teams |
| **Amser y cyfarfod:** | 10.00 – 12.45 |
| **Yn bresennol:** | **LlC**: Leasa Fielding (Cadeirydd), Alison Smith, Erica Dawson Davies, Tom Warren<br>**Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru**: Michaela Scrivin (ysgrifenyddiaeth)<br>**Arall:** Anna Holmes (Amgueddfa Cymru), Beverley Lewis (APCBB), Chloe White (Dŵr Cymru), Colin Russell (Cynrychiolydd LERC), Dawn Thomas (NWWT), David Jermyn (APCBB), Debbie Murphy (CEFAS), Gareth Holland-Jones (WaREN), Holly Peek (CNC), Jennie Jones (CNC), Jess Minett (WaREN), Kirsty Brown (NWWT), Olaf Booy (APHA), Phil Stone (Canŵio Cymru), Robert Smith (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Suzy Wood (CABI), Theresa Kudelska (CNC), Thomas King (Glandŵr Cymru), Tomos Jones (WaREN) |
| **Ymddiheuriadau:** | Chloe Powell-Jennings (CNC), Dan Forman (Prifysgol Abertawe), Gail Davies-Walsh (Afonydd Cymru), Gemma Williams (Dŵr Cymru), Katie Havard-Smith (Prifysgol Caerdydd), Louis Macdonald-Ames (Gwy a Wysg), Lyn Byrne (NWWT), Niall Moore (APHA), Phil Horton (RYA), Simon Roberts (RSPB) |


Diweddariadau Partneriaid
Diweddariad WaREN
Garddio heb rywogaethau estron goresgynnol
Diweddariad y Goedwig Genedlaethol
Rheolaeth Fiolegol Corchwyn / Jac y Neidiwr
Unrhyw Fater Arall


## TROSOLWG O GAMAU GWEITHREDU

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| **Diweddariadau partneriaid** | | | |

| Cam Gweithredu | Arweinydd | Amserlen | Diweddariad |
|---|---|---|---|
| 1. Unrhyw ddiweddariadau partner pellach i Michaela erbyn diwedd mis Tachwedd. | Pawb i e-bostio Michaela | | |
| **Diweddariad WaREN**<br>2. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Garddio heb rywogaethau estron goresgynnol**<br>3. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Diweddariad y Goedwig Genedlaethol**<br>4. Dim camau gweithredu yn codi. | | | |
| **Rheolaeth Fiolegol Corchwyn / Jac y Neidiwr**<br>5. Pawb i anfon gwybodaeth am safle a allai fod yn hyfyw ar gyfer rhyddhau gwiddon corchwyn at Suzy/Theresa. | Pawb i e-bostio Suzy Wood/Theresa Kudelska | | |
| **Unrhyw Fater Arall / Camau Nesaf**<br>6. Michaela i drefnu taith maes i'r Canolbarth ar gyfer mis Mehefin nesaf.<br>7. Michaela i ddosbarthu'r holl gyflwyniadau ar ôl y cyfarfod.<br>8. Michaela i anfon gwahoddiad calendr ar gyfer cyfarfod 8 Mawrth 2023. | Michaela<br>Michaela<br>Michaela | | |

## PWYNTIAU A CHAMAU GWEITHREDU ALLWEDDOL

Croesawodd Leasa Fielding bawb i'r cyfarfod, gan nodi ymddiheuriadau. Adolygwyd y rhestr o gamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf:

**Rhestr o gamau gweithredu o gyfarfod mis Mawrth 2022**

1. Unrhyw ddiweddariadau pellach i Michaela erbyn diwedd mis Mawrth. **Wedi'i wneud**
2. Phil Stone i ddosbarthu'r pdf Check Clean Dry washdown station. **Wedi'i wneud**
3. Tomos i rannu'r strategaeth Bioddiogelwch er mwyn cael sylwadau arni unwaith y bydd y drafft wedi'i gwblhau. **Yn parhau, diweddariad yng nghyfarfod heddiw. Drafft i'w ddosbarthu cyn hir**
4. Cyfarfod Grŵp Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i'w drefnu ar gyfer 9 Tachwedd 2022. **Wedi'i wneud**

Partneriaeth **Bioamrywiaeth** Cymru
Wales **Biodiversity** Partnership

## Diweddariadau Partneriaid

Dosbarthwyd diweddariadau ysgrifenedig cyn y cyfarfod. Mae pwyntiau ychwanegol yn cynnwys:

- **Amgueddfa Cymru:** Mae Ben Rowson wedi bod yn derbyn cofnodion newydd am wlithod rhithiol ("Ghost Slugs"), gan gynnwys un arall o Eryri (ger Dolwyddelan). Ym mis Mehefin 2022, daethpwyd o hyd i'r Falwen Dwrcaidd ("Turkish Escargot") fawr am y tro cyntaf yn Sir Gâr, yng Ngerddi Aberglasne. Lanlwythwyd ffotograff i iNaturalist gan ymwelydd (fel Helix pomatia). Gyda chymorth y garddwyr, daethpwyd o hyd i'r falwen unigol ac mae bellach yn yr Amgueddfa. Ni ddaeth Ben o hyd i unrhyw arwydd o falwod pellach, felly mae'n ymddangos yn annhebygol bod y rhywogaeth wedi'i sefydlu yno. Fodd bynnag, rhaid ei fod wedi cyrraedd y gerddi yn y gadwyn gyflenwi planhigion potiau.
- **GBNNSS:** Mae Olaf yn gofyn i bobl roi gwybod os byddant yn gweld malwod Tsieineaidd. Adroddwyd am boblogaethau cymharol fawr yn ne Lloegr a lleoliadau eraill hefyd. Mae cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor GBNNSS a gynhaliwyd ers mis Mawrth yn ystyried yr hyn sy'n digwydd gyda'r rhestr o rywogaethau o bryder arbennig ar ôl Brexit ar lefel Prydain Fawr; Pwyllgor Prydain Fawr sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ynghylch rhestru a dad-restru, felly bydd rhai gwelliannau maes o law. Daethpwyd o hyd i nyth cacynen Asia yn Lloegr, a chafodd ei dileu. Hysbyswyd Asiantaeth yr Amgylchedd
- **Cyfoeth Naturiol Cymru:**
  - Parhau i ymgorffori a gweithredu Gorchymyn IAS, gan gynnwys ymchwilio i nifer o achosion nas profwyd o weld rhywogaethau o bryder arbennig nad oeddent yn bresennol yng Nghymru o'r blaen (e.e. ci racŵn, mwsglygoden). Casglu gwybodaeth am ddosbarthiad a rheolaeth dail-ceiniog arnofiol yng Nghymru ac asesu sut y gellir gweithredu strategaeth dail-ceiniog arnofiol Prydain yng Nghymru.
  - Parhau i gefnogi a chyfrannu at gamau gweithredu sy'n gysylltiedig â strategaeth rhywogaethau estron goresgynnol Prydain, gan gynnwys mynychu'r fforwm rhanddeiliaid, mewnbynnu i Strategaeth newydd Prydain a PAP Garddwriaethol, ac eistedd ar weithgorau (Y Cyfryngau a Chyfathrebu Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain, NNSIP, Ymchwil).
  - Bydd Addysg CNC yn cyfrannu at Weithgor Addysg newydd y Cyfryngau a Chyfathrebu Rhywogaethau Estron, a fydd yn ystyried gwneud argymhellion i wella darpariaeth rhywogaethau estron mewn addysg.
  - - Mae LIC wedi darparu cyllid i CNC reoli llyfrothen uwchsafn mewn 2 safle yn ardal Llanelli i ddechrau. Mae gwaith paratoi ar y gweill (e.e. cynlluniau safle, contractwyr, caniatâd/asesiadau amgylcheddol, ymgysylltu â'r cyhoedd). Bydd CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i fwrw ymlaen â'r dileu ddechrau 2023.
  - Parhau i ddatblygu Canllawiau Darpariaeth Rheoli Rhywogaethau CNC.
  - Parhau i gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol.
  - Parhau i gefnogi treial bioreolaeth CABI drwy nodi safleoedd prawf (Jac y Neidiwr a Chorchwyn). Hadau wedi'u casglu o 4 safle Jac y Neidiwr yr hydref hwn (o dan drwydded). Mae rhestr hirach o safleoedd treialu Corchwyn wedi'u nodi, ac mae trafodaeth bellach gyda thirfeddianwyr yn cael ei chynnal ar hyn o bryd.

- **Cynllunio bioddiogelwch ar gyfer Ardal Cadwraeth Arbennig Pen Llŷn a'r Sarnau**: Mae'r canllaw adnabod rhywogaethau estron morol a gynhyrchwyd yn ddiweddar ar gael i'r cyhoedd a gellir ei rannu yn Gymraeg a Saesneg. Mae hefyd ar gael ar adran forol gwefan GBNNSS.
- **Iechyd Cyhoeddus Cymru**:
  - Mae ffliw adar yn cymryd llawer o amser, tra'i fod yn dod o dan gylch gwaith APHA a DEFRA. Gall hefyd fod yn broblem iechyd cyhoeddus ac yn dreth ddifrifol ar adnoddau ICC. Mae'r rhan fwyaf o broblemau dofednod hyd yma eleni wedi bod yn ne-ddwyrain Lloegr ond mae ambell achos wedi digwydd yng Nghymru (mae gan Gymru ddiwydiant dofednod cymharol iau gyda thai a bioddiogelwch gwell, er bod eithriadau.) Mae achosion mewn adar gwyllt ychydig yn fwy cyffredin, yn enwedig mewn adar dŵr ac adar môr, ac mae'n debygol y caiff gorchymyn cadw dan do ei weithredu yng Nghymru cyn hir. Adar gwyllt – mae'r feirws yn tueddu i effeithio ar yr ymennydd a'r perfedd - sy'n golygu bod trin adar gwyllt yn beryglus. Mae'n bwysig bod y rhai sy'n trin adar gwyllt marw heb RPE a/neu PPE llawn yn cael y pigiad ffliw tymhorol ac nad ydynt yn agor ceudodau thorasig ac abdomenol. Nid oes unrhyw achos o ffliw adar wedi'i gofnodi mewn mamaliaid yn y DU hyd yma, er bod un person a brofwyd yn Lloegr yn 2022 wedi cael canlyniad negyddol.
  - Mae gwaith trogod a gyflawnwyd yn genedlaethol rhwng 2017-2020 yn cael ei gofnodi, ac mae'n dangos ehangiad eang o *Ixodes ricinus* (y drogen sy'n gyfrifol am Lyme borreliosis) mewn sawl ardal yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd, mae gwell gwyliadwriaeth ar gyfer feirws Nîl y Gorllewin yn cael ei gynnal yng Nghaint.
  - O'r 11,000 o fosgitos y profwyd amdanynt (*Culex modestus*), roedd pob un yn negyddol. Erbyn hyn, mae 50 o safleoedd yng Nghymru a Lloegr ar gyfer canfod mosgitos goresgynnol, gyda'r rhan fwyaf yn Lloegr. Mae Robert yn ceisio annog Llywodraeth Cymru i ehangu safleoedd yng Nghymru. Ni chanfuwyd unrhyw wyau mosgito mewn maglau ("ovitraps") eleni, ac mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn ne-ddwyrain Lloegr, o bosibl oherwydd newidiadau mewn symudiadau tryciau / parcio lorïau, y mae trefniadau ar eu cyfer wedi newid ers Brexit. Canfuwyd un *Culex modestus* yn Stepney.
  - Mae gwaith yn cael ei wneud ar geirw ar weunydd Gogledd Swydd Efrog, ynghyd â'r gorchudd coetir hinsawdd. Mae'n ymddangos bod dwysedd ceirw a phriddoedd tywodlyd yn ffafrio presenoldeb rhywogaethau trogod gan eu bod yn cynhesu ac yn oeri'n gyflym.
- **Llywodraeth Cymru:** (Alison Smith) Mae Is-adran Seilwaith Eiddo LlC yn parhau i gefnogi byrddau prosiect bioreoli ar lefel Prydain (is-grŵp cynghori a chynllunio/canfod a darparu adnoddau). Cynhaliwyd gweithdy yn yr haf (gan CABI) yn edrych ar risg yn y dyfodol a rhywogaethau â blaenoriaeth o ran rhybudd, gan edrych ar sut y gellid eu blaenoriaethu ar gyfer ymchwil bioreoli yn y dyfodol. Parhau gyda thriniaethau ymarferol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar rywogaethau daearol, sydd bellach wedi'u hysgrifennu mewn contractau cynnal ac ati fel safon. Mae arolygon ecolegol hefyd yn gyfrifol am adnabod rhywogaethau estron goresgynnol.
- **Dŵr Cymru:** ariannu CABI i weithio ar gorchwyn yn Llanelli

**Camau Gweithredu**: Unrhyw un nad oedd wedi llwyddo i anfon diweddariad partner at Michaela cyn y cyfarfod, anfonwch un erbyn diwedd mis Tachwedd a gellir cynnwys hyn gyda'r cofnodion pan gânt eu dosbarthu.

## Prosiect WaREN: Diweddariad Cam 2

Rhoddodd Tomos Jones ddiweddariad ar y strategaeth bioddiogelwch, hyfforddiant a phecyn cymorth LAG, INNS Mapper, Ymledwyr Ecosystem a chylchlythyr WaREN.

- Cynhaliwyd gweithdy strategaeth bioddiogelwch yn ystod Cynhadledd WBP yn ddiweddar – adborth rhanddeiliaid i gael ei ymgorffori, Tomos i rannu'r strategaeth Bioddiogelwch er mwyn cael sylwadau arno unwaith y bydd y drafft wedi'i gwblhau.
- Cysylltwyd â LAGs i ofyn pa hyfforddiant y maent ei eisiau/angen, a chaiff hyfforddiant ei gyflwyno yn unol â hynny. Pecyn cymorth LAG ar gael ar-lein. Dylunydd yn cynhyrchu pecyn cymorth ffisegol hefyd.
- INNS Mapper: cronfa ddata cofnodion digwyddiadau ac offeryn adrodd camau gweithredu integredig. Ap drafft yn cael ei greu (disgwylir y beta ym mis Ionawr), gwefan yn cael ei datblygu (disgwylir y beta ym mis Chwefror). Bwrdd Prosiect yn rhoi adborth ar rywogaethau a rhestri rheoli, ac yn adrodd ar gynnwys.
- Ymgyrch Ymledwyr Ecosystem: ei nod oedd codi ymwybyddiaeth o rywogaethau estron goresgynnol a'u heffaith ledled Cymru, wedi'i thargedu at arddwyr a defnyddwyr dŵr hamdden. Datblygwyd taflenni a baner, fideos ar-lein ac ati. Ymgyrchoedd Be Plantwise a Check Clean Dry wedi'u hyrwyddo. Gwelwyd cynnydd o 6% mewn ymwybyddiaeth.
- Nod cylchlythyr WaREN yw rhannu llwyddiannau, heriau a chyfleoedd. I'w ddosbarthu bob yn ail fis.

Trafodaeth ynghylch cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf – bu'r cais diweddar am gyllid yn aflwyddiannus, felly y dyddiad gorffen presennol ar gyfer prosiect WaREN yw 31 Mawrth 2023. Chwilio am ffyrdd amgen ar gyfer ffrydiau ariannu.

## Garddio heb rywogaethau estron goresgynnol

Nododd Lucy o GBNNSS fod garddwyr yn llwybr cyflwyno allweddol ar gyfer rhywogaethau estron goresgynnol. Ffocws ar Be Plantwise dros y misoedd nesaf. Deunyddiau ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wefan GBNNSS. Gwybod beth rydych chi'n ei dyfu – dewiswch y planhigion cywir, anelwch at blanhigion brodorol neu ddewisiadau amgen nad ydynt yn oresgynnol. Canllawiau newydd ar arddio, tirlunio a chadw pyllau heb blanhigion goresgynnol niweidiol wedi'u lansio yma: Deunyddiau ac adnoddau » NNSS (nonnativespecies.org). Ystod o gategorïau ar gyfer planhigion a argymhellir yn lle rhywogaethau estron goresgynnol e.e. y gynffon las. Bwriad i weithio gyda TG i greu tabl mwy rhyngweithiol y gall defnyddwyr ei fireinio i dynnu sylw at yr hyn y maent ei eisiau.

## Diweddariad y Goedwig Genedlaethol

Nod y Goedwig Genedlaethol yw ymestyn ar hyd a lled Cymru a darparu defnydd aml-swyddogaethol. Chwe chanlyniad arweiniol: Rhaid ei dylunio a'i rheoli'n dda; bod yn hygyrch i bobl; a chynnwys y gymuned. Mae cysylltedd yn ddymunol; amlbwrpas; dangos dysgu ac ymchwil. Model "prif ganolfan a lloerennau" – 14 o 'brif ganolfannau' enghreifftiol ar ystad goed LlC (e.e. Coed y Brenin), gan edrych ar y broses i ychwanegu safleoedd nad ydynt yn perthyn i LlC. Lloerennau i gysylltu - efallai y bydd yn cymryd amser i ddigwydd ond bydd yn broses organig. Gweithio gyda Map Data Cymru i ddwyn ynghyd bum map stori, esbonio'r broses o fewn haenau map GIS sy'n cynnwys y map cyfle am goetiroedd. Gweithio ar fap

cysylltiadau penodol, i gysyniadu sut y gellir cysylltu ardaloedd - awdurdod lleol yn edrych ar gysylltiadau posibl yn eu hardaloedd. Saith Swyddog Coetir sydd bellach yn eu swydd, a gynhelir gan CNC, wedi'u lleoli mewn ardaloedd lleol. Llawer o wahanol feysydd gwaith ar waith - ewch i Coedwig Genedlaethol Cymru | LLYW.CYMRU am fwy o fanylion.

## Rheolaeth Fiolegol Corchwyn / Jac y Neidiwr

Rhoddodd Suzy Wood (CABI) ddiweddariad ar waith yn treialu dulliau bioreoli yng Nghymru. Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn cyrraedd heb elynion naturiol – efallai y bydd rhai o'r pryfed/pathogenau niweidiol hyn yn ddigon penodol i gael eu rhyddhau'n ddiogel fel cyfryngau bioreoli. Yn ddelfrydol, dylai rheolaeth ddod yn hunangynhaliol.

- Ymchwiliwyd i ffwng cawod goch Jac y Neidiwr – profwyd 75 rhywogaeth i sicrhau y bydd y gawod goch yn effeithio ar Jac y Neidiwr yn unig - a chanfuwyd ei fod yn hynod benodol i letywr. Cyflwynwyd y cyfrwng bioreoli cyntaf yn erbyn chwyn yn Ewrop yn 2014. Lledaeniad cyfyngedig, straen pellach wedi'i gasglu o Bacistan. Nid yw pob safle prawf wedi'u heintio gan y naill straen cawod goch neu'r llall. Mae profion penodol i safle bellach yn cael eu gwneud cyn i'r gawod goch gael ei rhyddhau ar safleoedd newydd.
  - Cafodd tri safle yng Nghymru eu profi yn 2022 - roedd un yn agored i'r gawod goch ond, yn anffodus, cafodd y treial ei gwtogi oherwydd canlyniadau tywydd poeth (pori gan ddefaid!).
  - Bydd pedwar safle arall yn cael eu profi y flwyddyn nesaf, ac wyth safle fel rhan o brosiect Pedair Afon LIFE.
- Ymchwiliwyd i widdon Corchwyn – ystod y lletywr yn gul iawn, cafodd 40 rhywogaeth eu profi'n llwyddiannus i sicrhau mai corchwyn Seland Newydd yw'r unig letywr. Cymeradwywyd rhyddhau gwiddon yn 2018, targedwyd 18 safle ledled y DU rhwng 2019-2022. Llwyddiant amrywiol hyd yma, lledaeniad 2 fetr ym Mhwll Brechfa. Tri safle arall eleni. Goroesodd y gwiddon ar bob safle i raddau amrywiol, cafodd rhai eu heffeithio gan y tywydd poeth. Bwriad i ailasesu yn y gwanwyn a rhyddhau mwy o widdon. Mae angen ystyried pori yn y dyfodol.
- 2023 – cwmpasu safleoedd profi gwiddon corchwyn, monitro safleoedd 2022 a chynhyrchu gwiddon i'w rhyddhau. Profi safleoedd Jac y Neidiwr ar gyfer tueddiad y gawod goch, rhyddhau'r gawod goch, hyfforddi cydweithredwyr mewn monitro.

**Cam Gweithredu**: os ydych chi'n gwybod am unrhyw safleoedd Corchwyn sy'n addas ar gyfer rhyddhau gwiddon, cysylltwch â Suzy/Theresa.

## Unrhyw Fater Arall

- Cylchlythyr diweddaraf Rhwydwaith Safleoedd Sentinel Cymru wedi'i ddosbarthu fis diwethaf
- Cylchlythyr GBNNSS Hydref 2022 hefyd wedi'i ddosbarthu fis diwethaf
- Mae gofyniad cyfreithiol bellach i ddefnyddwyr proffesiynol plaladdwyr gofrestru gyda DEFRA (Leasa i anfon dolen at Michaela)
- Trafodaeth am gyfarfodydd y dyfodol – cytunodd y rhai a oedd yn bresennol y dylai cyfarfodydd aros ar-lein yn unig, ond teithiau maes blynyddol i'w trefnu tua diwedd y gwanwyn (Mehefin)
- Trefnir y cyfarfod nesaf ar gyfer 8 Mawrth 2023.

**Cam Gweithredu**: Michaela i drefnu taith maes i'r Canolbarth ar gyfer mis Mehefin nesaf. Michaela i ddosbarthu'r holl gyflwyniadau ar ôl y cyfarfod. Michaela i anfon gwahoddiad calendr ar gyfer 8 Mawrth 2023.